## Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

## Ymateb y Cyngor i Gwestiwn yr Arolygwyr ynglŷn â gwrthwynebiadau i’r Ffin Anheddiad yn Robin Hill a wnaed gan Asbri Planning

### Cwestiwn yr Arolygwyr

*Mae'r gwrthwynebiadau i'r ffin anheddiad a wnaed gan Asbri Planning (35) yn cael eu hystyried drwy gyflwyniadau ysgrifenedig ac ymweliad di-gwmni â’r safle. Mae'r Arolygwyr yn gofyn i chi ymateb i'r pwyntiau a wnaed yn y sylwadau, yn enwedig yr honiadau nad yw ffin yr anheddiad yn Robin Hill yn cyd-fynd â chanfyddiadau Diweddariad ar Sylfaen Tystiolaeth Dynodiadau Tirwedd Lleol Caerdydd, 2025 ac Asesiad Lletem Las Caerdydd, 2025. Ymatebwch erbyn 19 Mehefin.*

### Ymateb y Cyngor

Cododd Asbri Planning faterion ynghylch rhesymeg ffin yr anheddiad, ffin y Lletem Las a ffiniau Ardal Tirwedd Arbennig Cribau Mynydd y Garth a Phentyrch fel y maent yn ymwneud â Robin Hill o ystyried yr Asesiad Lletem Las 2025 wedi'i ddiweddaru, y Diweddariad ar Sylfaen tystiolaeth Dynodiadau Tirwedd Lleol 2025, a'r adolygiad o ffiniau aneddiadau.

Cynhaliodd y Cyngor adolygiad o ffiniau'r anheddiad, y Lletem Las, a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig wrth baratoi Cynllun Adneuo’r CDLl Newydd Caerdydd.

Wrth adolygu ffin yr anheddiad yn y lleoliad hwn, ystyriwyd bod Robin Hill yn meddiannu safle amlwg wrth gyffordd Heol Caerdydd a Heol Pant-y-Gored. Mae Robin Hill ei hun yn eiddo sengl, er yn fawr, wedi'i osod yn ôl o'r ffordd gyda mynediad â gât o fewn llain fawr gyda'r tir yn goleddfu i lawr tuag at Robin Hill. Ystyriwyd bod Robin Hill yn cynnig pontio mwy cydymdeimladol o drefniant trefol y datblygiad cyfagos ar hyd Heol Caerdydd i’r dirwedd feddalach cefn gwlad cyfagos.

Er y nodwyd bod yr Adolygiad Lletem Las a'r astudiaeth ATA yn argymell tynnu Robin Hill o'r dynodiad Lletem Las a dynodiad ATA Cribau Mynydd y Garth a Phentyrch yn y drefn honno, ystyriwyd o safbwynt ffin yr anheddiad ei bod yn bwysig amddiffyn Robin Hill rhag trefniant mwy trefol fel y datblygiad ar hyd Heol Caerdydd gan gynnwys y Bryn Briallu cyfagos.